

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion panel cyllid 25.6.2019

Presennol

W L Davies, I C Thomas, S Sage, C Williams, W T Owen, M Sarnacki

1. Penodi swyddogion newydd

Ethol Cyng W L Davies yn gadeirydd a Cyng I C Thomas yn Is gadeirydd (unfrydol)

2. Ymddiheuriadau

Cyng C Larsen a Cyng R Thomas

3. Datgan Buddiant Personol

C Williams – cais 5.6

I C Thomas – Cais 5.5 a 5.6

S Sage – cais 5.7

M Sarnacki – cais 5.7

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Ceisiadau Ariannol :

Cyn trafod unrhyw gais cafwyd cyflwyniad gan Gavin Owen ar cais Hwb

Dangoswyd cyfrifon tebyg gan Hwb Aberystwyth oedd wedi gwario £80,000 ar rinc nhw a gwerthu 12,000 (dros 4 wythnos) o docynnau oedd yn codi £67000 .
cafwyd cyfartaledd o 412 bob dydd.

Mae HwB yn ceisio hel £15000 am y blaendal o wahanol ffynonellau ,ac roedd y cais yn gofyn am cyfraniad o £5000 o Cyngor Tref .

Mae'r rinc dan sylw yn dal mwy na un Aberystwyth ac felly potensial fwy. Cafwyd sgwrs am beidio amharu ar safle y goeden Nadolig, ac

mae'r clerc angen ffeindio allan mesuriadau gwaelod y goeden dolig i sicrhau bod na le . Mewn egwyddor cytuno i gyfrannu ond trafod ar ôl y ceisiadau eraill

Cyn trafod cais 1 a 2 nododd y clerc bod hawl cyfrannu i unigol, ond yn hanesyddol wedi talu os yn cynrychioli ar lefel cenedlaethol .

Penderfynwyd creu hynny yn amod wrth symud mlaen

- i) Priya Evans- gan nad ydi'r cais yn nodi cystadleuaeth penodol ar lefel cenedlaethol cytuno mewn egwyddor hyd at £100 os fydd cystadleuaeth rhyngwladol cyn Mis Mawrth (a fysa o pot eraill)
- ii) Annabel Bohana – gan ei bod hi wedi cynrychioli Cymru ym Mis Mai cyfrannu £100 (pot eraill)
- iii) Bobath - £50 (pot eraill)
- iv) Eisteddfod yr Urdd - £250 (amcangyfrifon)
- v) Sbarc - £1500 (amcangyfrifon)
- vi) Pel – Rwyd – Tîm o Walis Caernarfon - £200 gan na dyna mae timau chwaraeon eraill yn derbyn (
- vii) CEGMUSIC – dim cworwm – trafod yn y Cyngor
- viii) HWB - £2000 (pot eraill/pot digwyddiadau nadolig) ond sôn bod angen cais 2020 mewn erbyn Mis Medi flwyddyn yma

6. Banc Barclays – ‘Plan Charges’-

eglurodd y clerc bod cynllun ffioedd newydd a bod ni ar hyn o bryd ar y Cynllun taliadau cymysg (siec a ar-lein) a Penderfynwyd bod angen monitor rhwng rwan a gwneud yr amcangyfrifon gan gofio cynnwys yn yr amcangyfrifon

7. Parc dros yr Aber

- cafwyd gwybodaeth am ffigyrau incwm posib o beiriannau parcio sef £46861.97 – penderfynwyd trafod yn y Cyngor llawn er mwyn cael cyfle I holi fwy dros yr Haf ac yna penderfyniad Medi/Hydref ar gyfer yr amcangyfrifon i weithredu 2020 , gan nad ydi yn chwarae rhan yn amcangyfrifon eleni

8. Cynigion parthed trydan- clerc I gael prisiau gan Scottish Power , E-on a ENF iw drafod Mis Medi

9. Blachere

Cafwyd costau trwsio'r coeden – Penderfynwyd talu'r £404.40

Cafwyd costau mwy o oleuadau at y crossstreets , mwy I'r goeden dolig a pris i adnewyddu'r "cetenary wire" sydd yn dechrau diffygio mewn rhai llefydd.

Penderfynwyd i'r clerc trafod efo'r installer cyn y Cyngor I weld faint sydd yn mater brys gan ystyried gwneud rhai eleni a rhai flwyddyn nesaf

Gorffennodd y cyfarfod am 18.37